AWGRYMIADAU AR GYFER GWERSI CA3

7. Ploty [Ffensys]

Natalia Krawczuk, 2015, Gwlad Pwyl

Deialog a Dadlau:

Cydnabod bod rhywun yn newid ei feddwl

Rhowch gyfleoedd i'r myfyrwyr fynd yn ôl at y sylwadau a wnaed ganddynt yn flaenorol a'u hystyried yng ngoleuni cyfraniadau eraill. Modelwch sut i wneud hyn er mwyn i'r myfyrwyr ddeall yn eglur fod newid meddwl nid yn unig yn dderbyniol, ond ei fod hefyd yn dangos y gallu i feddwl ar lefel uchel.

Dealltwriaeth Ddiwylliannol

Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Cymhwysedd Cymdeithasol a Dinesig

Ystyried effaith ffiniau ar gymunedau

Cwestiynau Trafod

Gosodwch dasg gwylio i'r myfyrwyr, sy'n gofyn iddynt nodi'r holl amserau yn y ffilm lle caiff ffiniau eu sefydlu

Ynghylch y ffilm:

Y myfyrwyr i weithio mewn grwpiau ac adrodd yn ôl:

- *Beth yw pwrpas y ffiniau yn y ffilm?*
- *Ym mha ffyrdd y mae'r enghreifftiau o 'ffensio i mewn' neu 'greu ffiniau' yn symbolaidd (e.e. mae aderyn mewn cawell yn symbol o gyfyngu ar ryddid i symud, gallai cŵn ar ochrau gwahanol i'r ffens fod yn symbol o ddadleuon a gwahaniaethau cymunedol)*

Y tu hwnt i'r ffilm:

- *Pa ffiniau yr ydych yn dod ar eu traws yn eich bywyd bob dydd?*
- *Pam y mae pobl yn codi 'ffensys' neu rwystrau?*
- *A ydynt bob amser yn angenrheidiol? Beth a fyddai'n digwydd pe baent yn cael eu symud? (Ystyriwch y sgrinlun isod)*

Syniadau ar gyfer Mynegiant Diwylliannol

Crëwch waith celf sy'n cynrychioli 'ffensys'. Meddyliwch mewn ffordd symbolaidd yn ogystal â llythrennol.